Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Diweddariad ar gasglu data tai a allbynnau ystadegol, 2022–23

Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad ar ein cynlluniau ar gyfer casglu/cyhoeddi data ar gyfer 2022–23.

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 Mai 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 24 Mai 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariad-ar-gasglu-data-tai-allbynnau-ystadegol-2022-23-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cynnwys

Cefndir

Crynodeb o gynlluniau

Y camau nesaf

Cefndir

Mae'n hanfodol bod yr ystadegau tai sy'n cael eu casglu a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn gywir ac yn amserol, i sicrhau y gellir datblygu polisïau a'u monitro mewn modd effeithiol.

Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith estynedig ar ein trefniadau ar gyfer casglu/cyhoeddi data. Cafodd llawer o'r casgliadau data ac allbynnau ystadegol rheolaidd mae Llywodraeth Cymru yn eu cynhyrchu mewn perthynas â thai eu canslo neu eu gohirio yn ystod 2020–21, a'u hailgychwyn wedyn yn ystod 2021–22.

Crynodeb o gynlluniau

Wrth ddrafftio'r amserlen casglu/cyhoeddi data ar gyfer 2022–23, ystyriwyd yn ofalus pan oedd angen data ar bynciau penodol yn ystod y flwyddyn, y baich ar y rhai a oedd yn darparu'r data a'r tîm casglu data, yn ogystal a'r ffordd mae'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariad-ar-gasglu-data-tai-allbynnau-ystadegol-2022-23-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

drefn yn effeithio ar y broses ddilysu rhwng y gwahanol gasgliadau.

Ar gyfer amserlen 2022–23 (casgliadau data ar gyfer y cyfnod 2021–22), rydym yn cynnig y canlynol:

- Cesglir data ar ddigartrefedd bob blwyddyn, a bydd rhai o'r tablau'n cael eu dileu. Ni ofynnir am ddata chwarterol yn ystod 2022-23. Dyma'r un drefn a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu data blynyddol y flwyddyn flaenorol. Cynigir dilyn y drefn hon ar gyfer data 2021–22 yn unig, a bydd yn cael ei hadolygu ar gyfer blynyddoedd dilynol.
- Bydd data ar gartrefi newydd yn cael eu casglu unwaith y flwyddyn yn unig ar gyfer 2021–22. Ni ofynnir am ddadansoddiadau data chwarterol ar gyfer 2021-22. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23, byddwn yn ailgychwyn y casgliadau data chwarterol ar gyfer awdurdodau lleol yn unig. Bydd y casgliad cyntaf yn dechrau ym mis Gorffennaf 2022 ac yn cynnwys y cyfnod mis Ebrill – mis Mehefin.
- Bydd casglu data ar lety i'r digartref/pobl sy'n cysgu yn yr awyr agored yn parhau tan o leiaf mis Mawrth 2023 (awdurodau lleol yn unig).

Mae'r amserlen casglu data ar gyfer 2022–23 yn cael ei hamlinellu yn y tabl isod:

Casgliadau Data Tai: amserlen ar gyfer 2022–23

Casglu Data	Dyddiad anfon ffurflenni	Dyddiad dychwelyd
Cartrefi newydd, Blynyddol: Ebrill 2021 - Mawrth 2022	08 Ebrill 2022	06 Mai 2022
Cartrefi newydd, Chwarterol: Ebrill 2021 - Mehefin 2022 (ALlau yn unig)	01 Gorffennaf 2022	15 Gorfennaf 2022
Cartrefi newydd, Chwarterol: Gorffennaf - Medi 2022 (ALlau yn unig)	30 Medi 2022	14 Hydref 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariad-ar-gasglu-data-tai-allbynnau-ystadegol-2022-23-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Casglu Data	Dyddiad anfon ffurflenni	Dyddiad dychwelyd
Cartrefi newydd, Chwarterol: Hydref - Rhagfyr 2022 (ALlau yn unig)	06 Ionawr 2022	20 Ionawr 2022
Digartrefedd, Blynyddol: Ebrill 2021 - Mawrth 2022 (ALlau yn unig)	08 Ebrill 2022	13 Mai 2022
Stoc ar 31 Mawrth 2022 a Rhent Wythnosol 2022-23	08 Ebrill 2022	13 Mai 2022
Gwerthiannau gan Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru 2021-22	08 Ebrill 2022	13 Mai 2022
Safon Ansawdd Tai Cymru 2021-22	06 Mehefin 2022	27 Mehefin 2022
Cytundebau Rhent / SAP 2021-22	-	-
Anheddau Gwag 2021-22	21 Hydref 2022	25 Tachwedd 2022
Gododiadau 2021-22	21 Hydref 2022	25 Tachwedd 2022
Rhent heb ei Dalu 2021-22	21 Hydref 2022	25 Tachwedd 2022
Darparu Tai Fforddiadwy 2021-22	10 Mehefin 2022	08 Gorffennaf 2022
Dymchweliadau, Peryglon a Thrwydeddau 2021-22 (ALlau yn unig)	09 Medi 2022	07 Hydref 2022
Cymorth ar gyfer Gwelliannau Tai 2021-22 (ALlau yn	14 Hydref 2022	11 Tachwedd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariad-ar-gasglu-data-tai-allbynnau-ystadegol-2022-23-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Casglu Data	Dyddiad anfon ffurflenni	Dyddiad dychwelyd
unig)		2022
Grantiau ar gyfer Cyfleusterau i Bobl Anabl (DFGs) 2021-22 (ALlau yn unig)	14 Hydref 2022	11 Tachwedd 2022
Gweithgareddau Ardal Adnewyddu 2021-22 (ALlau yn unig)	14 Hydref 2022	11 Tachwedd 2022

Nodwch fod y casgliadau data wedi'u trefnu ar gyfer ail hanner y flwyddyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Gall hyn gynnwys gofyn am lai o ddata ond ni fyddwn yn gofyn am ddata ychwanegol na ofynnwyd amdanynt mewn blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn eich hysbysu am unrhyw newidiadau.

Y camau nesaf

Ar hyn o bryd mae'r tîm casglu data a'r tîm ystadegau tai o fewn Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â chydweithwyr polisi i nodi'r gofynion parhaus o ran tystiolaeth, ac i gytuno ar amserlen cyflwyno/cyhoeddi data ar gyfer 2023–24 (i gasglu data ar gyfer y cyfnod 2022–23).

Rhoddir diweddariadau pellach i'r Grŵp Gwybodaeth Data pan fyddant ar gael.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariad-ar-gasglu-data-tai-allbynnau-ystadegol-2022-23-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Diweddariad ar gasglu data tai a allbynnau ystadegol, 2022–23** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariad-ar-gasglu-data-tai-allbynnau-ystadegol-2022-23-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariad-ar-gasglu-data-tai-allbynnau-ystadegol-2022-23-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.